# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Fynwy

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Fynwy i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Fynwy wedi cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, wedi rhannol gyflawni 1, ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Sir Fynwy wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Fynwy wedi mynd trwy gyfnod o newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddod â'r gwasanaeth dysgu oedolion a'r gwasanaeth llyfrgell at ei gilydd i greu un pwynt mynediad i gymunedau. Mae'n drueni nad oedd y datganiad blynyddol hwn wedi rhoi sylwadau llawnach i archwilio effaith yr uno hwn. Yn sicr roedd methiant y systemau yn ymwneud â phrynu stoc yn ystod y flwyddyn wedi cael effaith negyddol ar y perfformiad mewn rhai meysydd, er y nodir bod y problemau hyn bellach wedi'u datrys. Mae mewnbwn proffesiynol i gynllunio'r datblygu ar gyfer y dyfodol yn rhywbeth y mae angen i'r awdurdod nawr ei ystyried yn ofalus. Bydd datblygu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell, a chael amser ac adnoddau i sefydlogi'r trefniadau newydd, yn hanfodol bwysig i gryfhau arlwy'r gwasanaeth.

- Mae'r holl fannau gwasanaeth yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Cyflwynwyd tair astudiaeth achos sy'n dangos effaith y gwasanaeth ar unigolion o'r gymuned.
- Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol ill dau wedi cynyddu'n sylweddol, gyda'r nifer sy'n mynychu sesiynau a drefnwyd ymlaen llaw y trydydd uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.
- Mae problemau gyda'r system ar gyfer prynu stoc wedi effeithio ar dargedau derbyniadau, a'r perfformiad wedi gostwng yn sylweddol mewn nifer o feysydd; nodir bod y problemau hyn bellach wedi'u datrys.
- Ni chaiff y targedau ar gyfer darpariaeth Gymraeg eu cyrraedd o gryn dipyn, ond cydnabyddir hyn, ac mae'n galonogol fod cynlluniau ar y gweill i gynyddu'r gwariant yn hyn o beth yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu, a'r lefelau defnydd arnynt wedi'u cadw i gryn raddau, tra bod llawer o awdurdodau eraill wedi gweld cwymp yn y nifer sy'n eu defnyddio.
- Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi codi ychydig gyda'r cyfartaledd fesul pen yr ail uchaf yng Nghymru; Sir Fynwy yw un o ddau wasanaeth llyfrgell yn unig i gyrraedd y targed hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, bod uno'r gwasanaeth wedi effeithio'n gadarnhaol ar y ffigyrau hyn, gyda chynnydd staff yn cynnwys darparu gwasanaethau dysgu oedolion a'r llyfrgelloedd.

- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2016-17, ond erbyn hyn mae'n cynrychioli gwariant ar gyfer y gwasanaeth cyfunol ac nid swyddogaeth y llyfrgell yn unig.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Fynwy yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn rhannol gyflawni 1, a heb strategaeth llyfrgell nid yw'n cyflawni hawl graidd 12. Yn anffodus, nid oedd digon o dystiolaeth fanwl ar y datganiad blynyddol i roi sylwadau pellach ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â gofynion yr hawliau craidd hyn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn ymwybodol bod angen datblygu strategaeth ysgrifenedig, ac mae hyn ar y gweill; rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gallu adrodd ar hyn yn ei ddatganiad nesaf.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Fynwy yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol: | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 Adnoddau Cymraeg | | Heb ei gyflawni |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | x | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |
| DA 11 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | x | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Ni fu newid sylweddol ym mherfformiad cyffredinol Sir Fynwy o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nododd Sir Fynwy y byddai ei arolygon defnyddwyr yn cael eu cynnal yn ystod hydref 2018 (plant) a hydref 2019 (oedolion). Nid oedd y gwasanaeth ychwaith wedi gallu adrodd ffigyrau yn ymwneud â gwerthusiad defnyddwyr o'i arlwy hyfforddiant yn ystod 2017-18.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 73% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 38% | 90% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | *amherthnasol* | | 75% | 98% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Fynwy dair astudiaeth achos o'r fath gan ddefnyddwyr unigol:

- Sgiliau Digidol – staff llyfrgell wedi rhoi cymorth i ddefnyddiwr hŷn y llyfrgell i ddefnyddio ei iPad a chael mynediad i'r system Books4U; gan amlygu pwysigrwydd rôl cefnogaeth ddigidol y llyfrgell.
- Canolfan Gymunedol – teulu sy'n defnyddio Canolfan Gymunedol Cas-gwent ar

gyfer dysgu, ymchwil a gweithgareddau cymdeithasol; gan ddangos sut mae'r llyfrgell yn ganolfan ganolog sy'n gynnes ac yn groesawgar i'r gymuned, a gwasanaethau wedi'u cynnig ar gyfer pob oed.

- Her Ddarllen yr Haf – effaith cymryd rhan yn her ddarllen yr haf ar un plentyn; o ran gwella hyder, sgiliau darllen a chymhelliant.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Fynwy ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** | ***2016/17*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd: | *amherthnasol* | | 24% | 83% | 94% | |
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 33% | 65% | 95% | *30%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 90% | 98% | 100% | |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | *amherthnasol* | | 88% | 91% | 98% | *79%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 93% | 99% | 100% | *97%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | *amherthnasol* | | 74% | 86% | 94% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | *amherthnasol* | | 93% | 97% | 99% | *93%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | *amherthnasol* | | 8.5 | 9.1 | 9.2 | *9.1* |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen | 84 | *3/22* | 10 | 32 | 238 | *48* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen | 128 | *15/22* | 15 | 199 | 473 | *59* |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth | 191 | *14/22* | 82 | 228 | 684 | *236* |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,614 | *3/22* | 2,501 | 4,047 | 7,014 | *5,035* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 465 | *18/22* | 243 | 866 | 2,211 | *1,114* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 145 | *15/22* | 100 | 154 | 229 | *196* |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen * | 12 | *21/22* | 4 | 68 | 663 | |
| DA 11 Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul pen^ | 10 | *7/22* | 5 | 9 | 14 | *9* |
| c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 26% | *12/22* | 14% | 27% | 67% | *25%* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 50 | *8/21* | 3 | 31 | 196 | *43* |

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2016/17* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,346 | *11/21* | 40 | 1,346 | 11,939 | *1,408* |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £15,242 | *5/21* | £7,047 | £11,915 | £17,771 | *£15,201* |
| b) % ar staff | 74% | *2/21* | 44% | 63% | 75% | *73%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | *20/21* | 4% | 13% | 25% | *9%* |
| % ar offer ac adeiladau | 3% | *16/21* | 0% | 4% | 20% | *4%* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 15% | *13/21* | 0% | 18% | 37% | *14%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £473 | *10/20* | £0 | £338 | £17,432 | *£557* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £2.40 | *2/21* | £1.24 | £1.82 | £2.41 | *£2.40* |
| DA 16 Oriau agor# | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | *amherthnasol* | | 0.00% | 0.02% | 1.28% | |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 1.24% | *12/20* | 0.00% | 0.35% | 11.24% | *1.2%* |

** fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg*

** am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl*

*# Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).*

Cydnabyddir bod costau'r gwasanaeth (DA 14 a 15) bellach yn ymwneud â gwasanaeth cyfunol llyfrgelloedd a dysgu oedolion, ac nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol ag awdurdodau llyfrgell eraill.

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Sir Fynwy wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr eto; nodir y cynhelir y rhain yn hydref 2018 a 2019. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae cefnogaeth dda i iechyd a lles, gyda'r targedau yn hyn o beth wedi'u cyflawni. Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi cynyddu'n sylweddol, gyda'r nifer sy'n mynychu sesiynau wedi'u trefnu ymlaen llaw y trydydd uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Fynwy yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Fodd bynnag, mae nifer y mynychwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell wedi gostwng, megis hefyd cyfanswm nifer yr ymweliadau corfforol, benthyciadau llyfrau a'r nifer o fenthycwyr gweithredol a gofnodwyd. Roedd problemau â'r systemau, sydd bellach wedi'u datrys, yn ffactor cyfrannol yn hyn o beth, ac mae ymweliadau fesul pen y boblogaeth yn dal i fod yn un o'r rhai uchaf yng Nghymru. Mae Sir Fynwy yn un o bymtheg o wasanaethau llyfrgell sydd wedi cofnodi gostyngiad yn nifer y rhith-ymweliadau, er nad yw'r ffigyrau defnydd yma yn cyfateb i'r flwyddyn lawn. Mewn cyferbyniad, mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu, yn unol â'r duedd gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell Cymru.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Roedd problemau gyda'r system ar gyfer prynu stoc (sydd bellach wedi'u datrys) wedi effeithio ar dderbyniadau yn ystod y cyfnod, gan arwain at ostyngiad yn y gyllideb deunyddiau a ddyrennir, a Sir Fynwy yn un o 13 awdurdod nad ydynt yn cyflawni'r targedau yn y maes hwn. Mae gwariant ar ddeunyddiau plant wedi mwy na haneru, ac mae'r swm a wariwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi gostwng yn ddramatig. O ganlyniad nid yw'r targedau ar gyfer darpariaeth Gymraeg wedi'u cyflawni o gryn dipyn, gyda lefel buddsoddiad Sir Fynwy yr isaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y gwariant ariannol arbennig o isel ar ddeunyddiau darllen Cymraeg, ac mae'n bwriadu cynyddu hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi cynyddu, a chadwyd y lefelau defnydd i gryn raddau, tra bod llawer o awdurdodau eraill wedi gweld cwymp yn y nifer sy'n eu defnyddio. Mae'r gwelliant mewn perfformiad yn ymwneud â chyflenwi ceisiadau i'w groesawu, a'r ddau darged yn cael eu cyflawni erbyn hyn.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi cynyddu ryw ychydig ac ar gyfartaledd fesul pen y boblogaeth dyma'r ail uchaf yng Nghymru, a Sir Fynwy yw un o ddau wasanaeth llyfrgell yn unig i gyrraedd y targed hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, bod uno'r gwasanaeth wedi effeithio'n gadarnhaol ar y ffigyrau hyn, gyda chynnydd yn y staff ar gyfer darparu gwasanaethau dysgu oedolion a'r llyfrgelloedd. Sir Fynwy hefyd yw un o'r ychydig wasanaethau llyfrgell sy'n cofnodi cynnydd mewn staff â chymwysterau, er bod y cyfartaledd fesul pen yn parhau i fod ychydig yn is na chanolrif Cymru ac nid oes unrhyw wasanaeth llyfrgell arall yn adrodd nad oes gan y Pennaeth Gwasanaeth gymhwyster llyfrgell perthnasol. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi codi gyda phob un ohonynt yn derbyn hyfforddiant mewnol, er bod cyfanswm yr oriau wedi gostwng.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2016-17, ond erbyn hyn mae'n cynrychioli gwariant y gwasanaeth cyfunol ac nid swyddogaeth y llyfrgell yn unig; nid oes modd felly cymharu'r ffigyrau hyn yn uniongyrchol ag awdurdodau llyfrgell eraill. Cadwyd cyfanswm yr oriau agor, gydag 1.2% o ddanfoniadau i'r cartref wedi'u methu oherwydd diffygion mecanyddol a salwch staff.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Soniodd Sir Fynwy am uno strategol ar ei Wasanaeth Llyfrgell, Gwasanaeth Canolfan Cymunedol, ac Addysg Gymunedol. Roedd y naratif a gyflwynwyd yn nodi sut mae'r gwasanaethau hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; darparu mynediad cynhwysol a di-dâl i ystod o wybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus; cefnogi iechyd a lles; galluogi cyfleoedd dysgu a datblygu sgiliau; ac yn cyflawni rôl hanfodol wrth helpu gwasanaethau cyhoeddus i estyn allan i gymunedau.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, nododd Sir Fynwy sut mae'n bwriadu parhau i gydweithio â phartneriaid a'r gymuned i ddatblygu'r gwasanaeth trwy ei Ganolfannau Cymunedol a Llyfrgelloedd. Mae'r cynlluniau yn cynnwys ffurfioli estyniad i drefniadau ar gyfer Llyfrgell

Gilwern, adolygu'r Gwasanaeth Danfoniadau i'r Cartref i sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn gost-effeithiol, a datblygu'r arlwy digidol i roi cefnogaeth i fusnesau a chyfnerthu sianeli presennol y cyfryngau cymdeithasol. Meysydd i'w datblygu a nodwyd hefyd oedd gwasanaethau i blant trwy Dechrau Da a Her Ddarllen yr Haf, ac estyn yr arlwy iechyd, trwy lansio Casgliad Dementia Llyfrau ar Bresgripsiwn.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Fynwy wedi mynd trwy gyfnod o newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddod â'r gwasanaeth dysgu oedolion a'r gwasanaeth llyfrgell at ei gilydd i greu un pwynt mynediad i gymunedau. Mae'n drueni nad oedd y datganiad blynyddol hwn wedi rhoi sylwadau llawnach i archwilio effaith yr uno hwn. Yn sicr roedd methiant y systemau yn ymwneud â phrynu stoc yn ystod y flwyddyn wedi cael effaith negyddol ar y perfformiad mewn rhai meysydd, er y nodir bod y problemau hyn bellach wedi'u datrys. Mae mewnbwn proffesiynol i gynllunio'r datblygu ar gyfer y dyfodol yn rhywbeth y mae angen i'r awdurdod nawr ei ystyried yn ofalus. Bydd datblygu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell, a chael amser ac adnoddau i sefydlogi'r trefniadau newydd, yn hanfodol bwysig i gryfhau arlwy'r gwasanaeth.